
**Rhif**: **3**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Rhif y Cais / Application Number : C14/0386/24/LL

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C14/0386/24/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 19/05/2014 |
| Math y Cais*:* | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned*:* | Llanwnda |
| Ward: | Llanwnda |
| Bwriad: | ADNEWYDDU CANIATAD RHIF C08A/0568/24/LL AR GYFER CODI 24 O DAI, NEWIDIADAU I FYNEDFA BRESENNOL A CHREU LONYDD STAD |
| Lleoliad: | TIR YNG NGHEFN TAN Y CELYN, SWN Y MOR A TALARDD, LLANWNDA, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7YN |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | DIRPRWYO'R HAWL I GANIATÁU YN DDAROSTYNGEDIG I ARWYDDO CYTUNDEB 106 |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Gohiriwyd y cais yn y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 19.10.15 er mwyn cynnal ymweliad safle. Yn y Pwyllgor hwn adroddwyd bod capasiti ysgol dalgylch y cais cynllunio, sef, Ysgol Felinwnda, wedi cynyddu ar sail canlyniadau arolwg capasiti ysgolion Gwynedd yn ystod y flwyddyn 2014 ac nad oedd hi'n ofynnol mwyach i'r ymgeisydd gyfrannu'n ariannol ar gyfer darparu capasiti ychwanegol o fewn yr ysgol.

1.2 Fodd bynnag, ar ôl ail-edrych ar gyd- destun polisïau a gofynion cynllunio perthnasol, mae Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Datblygiadau Tai a Darpariaeth Addysgol yn datgan:

'*bydd asesiad o effaith datblygiad preswyl ar ysgolion lleol yn cael ei seilio ar y wybodaeth gyfredol (h.y. capasiti y sefydliadau addysgol ynghyd a nifer y disgyblion sydd yn eu mynychu) sydd yn cyfleu'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn academaidd pryd y cyflwynir y cais cynllunio'.*

1.3 Yn yr achos hwn, y flwyddyn academaidd briodol yw 2013-2014 gan fod y cais cynllunio wedi ei gyflwyno ym Mai, 2014. Amcangyfrifir bydd 10 plentyn yn deillio o'r datblygiad hwn sy'n golygu bod diffyg capasiti yn yr ysgol o 3 plentyn ac mae, felly gofyn i'r ymgeisydd sicrhau cyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth addysgol yn ysgol y dalgylch fel y'i cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio yng Ngorffennaf, 2014. Bydd y cyfraniad yn parhau i fod yn £36, 771.00 ar gyfer anghenion addysgol Ysgol Felinwnda.

1.4 Yn ychwanegol i'r uchod awgrymodd yr Aelod Lleol y posibilrwydd o godi tŷ ychwanegol ar y llecyn agored o werth adloniadol a gynhwysir o fewn y datblygiad arfaethedig ac ail-leoli'r llecyn adloniadol i fan arall yn y pentref. Mae'r llecyn agored hwn wedi ei gynnwys fel rhan o'r bwriad yn unol â gofynion Polisi CH1 a CH43 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd ynghyd a gofynion CCA: Datblygiadau Tai a Darpariaeth Addysgol ac mae ei gynnwys fel rhan o'r datblygiad yn gyson gyda sut mae datblygiadau eraill tebyg wedi eu ymdrin a hwy. Mae Polisi CH1 yn datgan bydd rhaid datblygu safleoedd a nodir ar y map cynigion yn unol â'r briff datblygu perthnasol a baratowyd gan y Cyngor (sydd, yn yr achos hwn, yn son am yr angen o gynnwys llecyn agored adloniadol ar y safle ac mae Polisi CH43 yn datgan disgwylir i ddatblygiadau tai newydd sy'n cynnwys 10 tŷ neu fwy ac sydd mewn ardaloedd lle na fyddai'r llecynnau agored presennol yn diwallu anghenion y datblygiad tai arfaethedig ddarparu llecynnau agored adloniadol. Mae CCA: Datblygiadau Tai a

Llecynnau Agored o Werth Adloniadol yn adlewyrchu gofynion y polisïau hyn. Er mwyn cydymffurfio a'r gofynion uchod mae'n ofynnol darparu llecyn agored o werth adloniadol oddi fewn i'r datblygiad hwn yn hytrach nag mewn man arall o fewn y pentref.

1.5 Er mwyn atgoffa'r Aelodau cais yw hwn er mwyn adnewyddu cais blaenorol ar gyfer codi 24 o dai, newidiadau i fynedfa bresennol a chreu lonydd stad. Caniatawyd y cais gwreiddiol yn Awst, 2009 o dan gyfeirnod C08A/0568/24/LL ac mae Cytundeb 106 yn ffurfio rhan o'r caniatâd ar gyfer darparu 6 o dai fforddiadwy. Daeth y caniatâd yma i ben ar y 11 Awst, 2014 ar ôl i'r cais hwn gael ei benderfynu gan y pwyllgor Cynllunio yng Ngorffennaf, 2014. Nid yw'r ymgeisydd wedi gallu dechrau ar y safle oherwydd y dirwasgiad yn yr economi ynghyd a'r angen i wneud newidiadau i'r cynllun fydd yn gwneud y bwriad yn fwy hyfyw.

1.6 Mae safle'r cais yn llecyn o dir sydd yn mesur oddeutu 0.9 hectar (2.2 acer) ac sydd wedi ei ddynodi yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) ar gyfer 27 o dai ac wedi ei leoli oddi fewn i'r ffin datblygu yn Dinas, Llanwnda. Golyga'r bwriad greu mynedfa newydd i'r ffordd sirol dosbarth III ynghyd a chreu llwybr troed sy'n cysylltu'r safle gyda'r cefn ffordd A. 487 a Dinas ei hun. Er mwyn sicrhau mynediad diogel i'r safle ac i gydymffurfio â gofynion yr Uned Drafnidiaeth bydd angen i'r clawdd presennol sydd wedi ei leoli ar gyrion gogledd-dwyreiniol y safle gael ei leihau i 1m o uchder er mwyn sicrhau gweledëdd digonol i gyfeiriad Rhos Isaf.

1.7 I'r gogledd o'r safle ceir ffordd sirol dosbarth III sy'n gwasanaethu Rhos Isaf a Rhostryfan, i'r dwyrain lleolir gorsaf lleihau gwasgedd cyflenwad nwy ( ble mae parth gwaharddiad o 16m yn bodoli), i'r de ymlwybrir cledrau'r Rheilffordd Eryri a gorsaf trin carthion tanddaearol (ble mae hefyd parth gwaharddiad o 15m yn bodoli) ac i'r gorllewin lleolir bwyty ynghyd a gerddi cefn a rhodfa breifat anheddau sefydledig. Fel y cyfeiriwyd ato uchod mae'r safle wedi ei ddynodi ar gyfer 27 o dai ac mae Briff Datblygu (Tachwedd, 2009) wedi ei ddarparu ar gyfer y safle i gyd-fynd a'r dynodiad.

1.8 Defnyddir y safle ar hyn o bryd ar gyfer porfa. Mae rhediad yn y tir oddeutu 5m i lawr i gyfeiriad y rheilffordd i'r de-ddwyrain o'r safle. Mae'r fynedfa bresennol (giât ddwbl) i'r safle wedi ei leoli yng nghornel gogledd-gorllewinol y cae.

1.9 Mae'r bwriad yn cynnwys 24 tŷ yn amrywio o dai 3-llofft i dai 4-llofft sy'n cynnwys 6 tŷ fforddiadwy. Bydd y tai yn dai deulawr gyda chyntedd, ystafell iwtiliti, lolfa, cegin/ystafell fwyta ac ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod ac ystafell ymolchi, storfa ac 3-4 ystafell wely ar y llawr cyntaf. Yn allanol bydd y tai o wneuthuriad llechi naturiol i'r toeau, waliau o rendr lliw a bricsen lân, ffenestri a drysau o goedyn a nwyddau glaw uPVC (gellir rheoli'r union ddeunyddiau drwy ofyn i'w cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyntaf). Byddai'r tai wedi eu gosod allan ar y safle a'u dylunio mewn modd sy'n uchafu effeithiolrwydd ynni, cymryd i ystyriaeth materion seilwaith, lleihau effaith ar fwynderau gweledol a mwynderau'r preswylwyr cyfagos. Lleolir man chwarae gyfochrog a'r orsaf trin carthion ac amgylchynir y rhan fwyaf o'r safle gyda ffens coedyn.

1.10 Yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol 12 "Dylunio" (2009) cyflwynwyd Datganiad Dylunio a Mynediad gyda'r cais sy'n cyfeirio at y 5 pennawd statudol a chredir fod ei gynnwys yn adlewyrchu natur a graddfa'r cais gan gymryd i ystyriaeth fod yr egwyddor o ddatblygu'r safle arbennig hwn eisoes wedi ei dderbyn.

1.11 Yn ychwanegol i'r datganiad uchod cyflwynwyd hefyd Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol gyda'r cais sy'n dod i'r canlyniad y buasai'r cynllun, yn ei gyfanrwydd, yn cael effaith positif ar ddefnydd a thrwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng nghymuned Llanwnda.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

### 2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU
Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 – DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchodir cymeriad gweledol ardal y Cynllun trwy sicrhau mai dim ond llechi Cymreig naturiol neu lechi sy'n debyg o ran edrychiad, lliw a nodweddion hindreulio fydd yn cael eu caniatáu ar doi, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'r math o adeilad neu ei leoliad penodol, neu'r manteision o ran cynaliadwyedd yn golygu y byddai deunydd arall yn briodol. Ar gyfer rhannau eraill o adeiladau, disgwylir defnyddio deunyddiau adeiladu o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol. Gwrthodir cynigion fydd yn arwain at gyflwyno deunyddiau sy'n israddol neu'n ymwthiol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO
Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD
Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

POLISI C7 - ADEILADU MEWN MODD CYNALIADWY
Gwrthodir cynigion ar gyfer datblygiadau newydd neu i addasu a newid defnydd tir neu adeiladau pan nad oes ystyriaeth wedi ei roi i faterion amgylcheddol penodol. Bydd yn rhaid i

gynigon gydymffurfio a meini prawf penodol sydd yn ymwneud ag adeiladu mewn modd cynaliadwy, oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny.

POLISI CH1 - TAI NEWYDD AR SAFLEOEDD A DDYNODWYD
Caniatáu cynigion adeiladu tai ar safleoedd a ddynodwyd yn ddarostyngedig ar feini prawf sy'n ymwneud â nodweddion penodol y datblygiad.

POLISI CH6 - TAI FFORDDIADWY AR BOB SAFLE A DDYNODWYD YN ARDAL Y CYNLLUN AC AR SAFLEOEDD A DDAW AR GAEL SYDD HEB EU DYNODI O FEWN FFINIAU DATBLYGU'R GANOLFAN IS-RANBARTHOL A'R CANOLFANNAU TREFOL
Caniatáu cynigion i ddatblygu tai ar safleoedd wedi eu dynodi ar gyfer tai neu ar safleoedd ar hap ar gyfer 5 uned neu fwy o fewn ffiniau datblygu'r ganolfan isranbarthol a'r canolfannau trefol sy'n darparu elfen briodol o dai fforddiadwy.
ffurf yr anheddle.

POLISI CH18 - SEILWAITH SYDD AR GAEL
Gwrthodir cynigion datblygu os nad oes yna ddarpariaeth ddigonol o seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad oni bai y gellir cydymffurfio gydag un o ddau faen prawf penodol sydd yn nodi bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud er mwyn darparu cyflenwad digonol neu fod y datblygiad yn digwydd fesul dipyn er mwyn cyd-fynd ag unrhyw gynllun arfaethedig i ddarparu seilwaith.

POLISI CH28 - EFFAITH DATBLYGIAD AR DEITHIAU
Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau ar raddfa fawr fydd yn creu cynnydd sylweddol mewn teithiau a wneir mewn cerbydau preifat lle na chyflwynwyd mesurau i leihau'r effaith amgylcheddol. Bydd datblygiadau sy'n cael eu cynllunio a'u dylunio mewn modd sy'n hyrwyddo'r dulliau mwyaf cynaliadwy ac amgylcheddol dderbyniol o deithio yn cael eu ffafrio

POLISI CH29 - GWARCHOD A GWELLA CYSYLLTIADAU I GERDDWYR
Gwrthodir cynigion o fewn Canolfannau a Phentrefi os nad ydynt yn darparu llwybrau cerdded diogel, deniadol ac uniongyrchol i gerddwyr ar draws ac allan o'r safle lle bo cyfle clir i wneud darpariaeth o'r fath.

POLISI CH30 - MYNEDIAD I BAWB
Gwrthod cynigion ar gyfer unedau preswyl/busnes/diwydiant neu adeiladau/cyfleusterau at ddefnydd cyhoeddus os na ellir dangos y rhoddwyd ystyriaeth lawn i ddarparu mynediad priodol i'r ystod ehangaf posib o unigolion.

POLISI CH31 - DARPARU AR GYFER BEICWYR
Gwrthodir cynigion datblygu na fydd yn darparu cyfleusterau penodol sydd yn ymwneud a beicio lle bydd cyfleoedd clir i wneud hynny.

POLISI CH32 - GWELLA HYGYRCHEDD GYDA CHLUDIANT CYHOEDDUS
Gwrthodir cynigion fydd yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y teithiau mewn moduron preifat os nad oes gwasanaeth cludiant cyhoeddus digonol yn ei le neu y bydd datblygiad yn cael ei wasanaethu'n effeithiol gan gludiant cyhoeddus yn y dyfodol ac y rhoddwyd ystyriaeth i hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus yng nghynllun a dyluniad y datblygiad.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu

POLISI CH36 - CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT
Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerddd a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

POLISI CH37 - CYFLEUSTERAU ADDYSGOL, IECHYD A CHYMUNEDOL
Caniateir cynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau addysgol, iechyd a chymunedol newydd neu estyniadau i rai presennol os gellir cydymffurfio a chyfres o feini prawf sy'n ymwneud a lleoliad y cynnig, ei hygyrchedd i wahanol ddulliau o deithio, ynghyd ag ystyriaethau priffyrdd, dyluniad unrhyw ysgol newydd a'r effaith ar ganol tref diffiniedig.

POLISI CH43 – DARPARU LLECYNNAU AGORED O WERTH ADLONIADOL MEWN DATBLYGIAD TAI NEWYDD.
Disgwyl bod datblygiadau tai newydd o 10 neu fwy mewn ardaloedd lle na fydd ddarpariaeth llecynnau agored presennol yn diwallu anghenion y datblygiad ddarparu llecynnau agored addas o werth adloniadol fel rhan hanfodol o'r datblygiad.

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) – Tai Fforddiadwy (Tachwedd, 2009).
CCA – Oblygiadau Cynllunio (Tachwedd, 2009).
CCA – Datblygiadau Tai a Llecynnau Agored o Werth Adloniadol (Tachwedd, 2009).
CCA - Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Tachwedd, 2009).
CCA - Briffiau Datblygu (Tachwedd, 2009).
Canllawiau Dylunio Gwynedd (2003).
CCA: Datblygiadau Tai a Darpariaeth Addysgol (2009)

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7, (Gorffennaf, 2014).
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12 - "Dylunio", (Mehefin, 2009).
NCT 2 - Cynllunio a Thai Fforddiadwy (Mehefin, 2006).
NCT 18 – Trafnidiaeth (2007).
NCT 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref,2013).
Canllaw Ymarferol ar Gynllunio a'r Iaith Gymraeg (Mehefin, 2014).

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais rhif C09A/0532/24/LL - diwygio amod 2 o ganiatâd rhif C08A/0568/24/LL er mwyn galluogi ail-leoli'r math o dai ar y safle (lleiniau 4-12 yn cynnwys 17 ac 18, 21-23 ac i addasu dyluniad lleiniau 7-12) wedi ei ganiatáu ym Mawrth, 2010 gyda chytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 er mwyn sicrhau cyflenwad o 6 tŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol.

3.2 Cais rhif C08A/0568/24/LL - codi 24 o dai deulawr, newidiadau i fynedfa bresennol a chreu lonydd stad wedi ei ganiatáu yn Awst, 2009 gyda chytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 er mwyn sicrhau 6 tŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol.

3.3 Cais rhif C06A/0451/24/AM - cais amlinellol ar gyfer 20 tŷ wedi ei ganiatáu yng Ngorffennaf, 2007.

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Gwrthwynebu ar sail eu bod wedi gwrthwynebu'r cais gwreiddiol gan nad oedd y fynedfa a'r ffordd sy'n arwain

heibio'r datblygiad yn addas ar gyfer nifer o dai ynghyd a bod ardal gorsiog iawn mewn rhan o'r cae sydd yn agos i'r afon.

Uned Drafnidiaeth: Dim gwrthwynebiad ond gydag amodau perthnasol.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Amod parthed cyflwyno manylion darparu a gweithredu system rheoli dŵr arwyneb sydd i'w gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Dŵr Cymru: Amodau safonol yn ymwneud a gwaredu dŵr aflan/dwr hwyneb o'r safle.

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Dim ymateb.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben ar 12.06.14 ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r bwriad gan y cyhoedd yn dilyn y cyfnod statudol hwn.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r egwyddor o ddatblygu'r safle yma ar gyfer tai eisoes wedi ei dderbyn ar sail iddo gael ei ddynodi'n benodol fel safle i'w ddatblygu ar gyfer 27 o dai (er bod y ffigwr terfynol yn dibynnu ar natur a chyfyngiadau'r safle) yn CDUG ac mae Briff Datblygu (Tachwedd, 2009) wedi ei baratoi ar ei gyfer.

5.2 Bwriedir i 6 o'r 24 ty fod yn rhai fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol gyda'u meddiannaeth a'u pris yn cael eu rheoli drwy gytundeb cyfreithiol Adran 106 yn unol â gofynion CDUG a'r Briff Datblygu. Mae'r Briff Datblygu yn cadarnhau gall Dinas (sy'n perthyn i Ardal Marchnad Dai Dormitori) ymdopi mewn egwyddor gyda rhagor o dwf (yn enwedig tai marchnad gyffredin) ac o ganlyniad dynodwyd y llecyn tir arbennig hwn er mwyn cyfrannu tuag at yr angen i sicrhau fod cyflenwad cyson o 5 mlynedd o dir ar gael ar gyfer tai yng Ngwynedd.

5.3 Ar sail yr uchod mae'r angen am dai wedi ei gefnogi a'i gadarnhau ac fe ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor ar sail gofynion Polisi CH1 o GDUG a'r Briff Datblygu mabwysiedig cyn belled bod y datblygiad yn un sydd hefyd yn cydymffurfio gyda pholisïau perthnasol eraill y CDU yn enwedig Polisi CH6 ar sail sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy fel rhan o'r datblygiad. I'r perwyl hyn cytunwyd bod 6 ty fforddiadwy yn cydymffurfio â'r polisïau a'r canllawiau perthnasol (CCA:Tai Fforddiadwy a NCT 2 - Cynllunio a Thai Fforddiadwy).

**Mwynderau gweledol**

5.4 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion gogledd-dwyreiniol Dinas a'r tu cefn i ddatblygiad presennol sy'n rhedeg ar hyd ymyl y gefn ffordd ac wrth ymyl gorsaf trin carthion a gorsaf lleihau gwasgedd cyflenwad nwy. Credir fod y safle yn ffurfio estyniad rhesymegol i ffurf adeiledig y pentref ac mae'r cynllun lleoliad ar gyfer y tai yn adlewyrchu dwysedd a dyluniad y tai o amgylch. Bydd y rhan fwyaf o'r tai yn weladwy ar hyd ffin ogleddol y safle gyferbyn a'r ffordd sirol dosbarth III ble fydd 40m o'r clawdd presennol yn cael ei leihau i gyfeiriad y dwyrain mewn uchder i 1m

er mwyn sicrhau gwelededd digonol sy'n cyfarfod a gofynion diogelwch ffyrdd. Byddai gyda'r prif olygfeydd i'r dwyrain o diroedd uwch ond cryn bellter i ffwrdd.

5.5 Mae edrychiadau'r tai bwriadedig yn rhai ar ffurf draddodiadol deulawr gyda nodweddion fel simnai, toeau llechi naturiol, ffenestri pren a waliau o rendr lliw a bric glan (bydd y deunyddiau terfynol i'w cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol drwy amod). Mae'r anheddau presennol sydd yn nalgylch y safle yn rhai eclectig ac er y byddai'r tai bwriedig o ddyluniadau modern credir na fyddent yn amharu'n sylweddol ar fwynderau gweledol y rhan yma o'r pentref. Mae'r Briff Datblygu yn datgan gan fod y safle ar ymyl y pentref dylid sicrhau fod y dyluniad o safon uchel a bod y tai yn gweddu gyda'r adeiladau cyfagos a'r ardal leol o ran graddfa a deunyddiau adeiladu. Bydd unrhyw blannu a thirweddu ar y safle yn destun amodau cynllunio perthnasol. I'r perwyl hyn credir fod y bwriad fel ei gyflwynwyd yn dderbyniol ar sail mwynderau gweledol ac, felly, yn cydymffurfio â̂ gofynion Polisiau B22, B23, B25 a B27 o GDUG.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.6 Fel y cyfeirir ato yn yr asesiad uchod mae'r safle wedi ei leoli y tu cefn i adeiladau presennol sy'n cynnwys tai deulawr gweddol fawr ynghyd a bwyty gydag uned breswyl uwchben. Mae'r adeiladau hyn wedi eu lleoli i'r gorllewin o'r safle gyda rhodfa breifat a gerddi cefn yn diffinio'r ochr yma'r safle. Mae pellter amrywiol o 23-31m rhwng cefnau'r tai presennol a chefnau'r tai bwriadedig a chredir fod y gwagle hwn ynghyd a llystyfiant presennol a dyluniad/lleoliad y tai arfaethedig yn dderbyniol ar sail gwarchod preifatrwydd rhesymol a gor-edrych. Er hyn bydd yn naturiol gweld cynnydd mewn aflonyddwch i mewn ac allan o'r safle o'i gymharu â'r trefniant presennol ond rhaid cofio hefyd fod y safle wedi ei ddynodi yn CDUG ar gyfer tai. Cofier hefyd nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi derbyn ymateb gan y cyhoedd yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol. I'r perwyl hyn credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisiau B23 a CH1 o GDUG.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.7 Mae'r Briff Datblygu yn datgan os darperir mynedfa o'r lôn i Ros Isaf bydd rhaid lleihau uchder y clawdd a'r gwrych presennol sy'n ffurfio'r terfyn gyda'r lôn ei hun. Dylid hefyd darparu llwybrau cerdded diogel i gerddwyr i mewn ac allan o'r safle. I'r perwyl hyn cyflwynwyd cynlluniau sy'n adlewyrchu'r amcanion hyn a gyda'r cyfuniad o amodau perthnasol gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail diogelwch ffyrdd. Mae'r bwriad hefyd yn dderbyniol ar sail paratoi cyfleusterau parcio, beicio , teithio a mynediad i'r tai eu hunain ac, felly'n, cydymffurfio a gofynion Polisiau CH28, CH29, CH30, CH31, CH32, CH33 a CH36 o GDUG.

**Materion cynaliadwyedd**

5.8 Er nad yw bellach yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno cyn-asesiad lefel còd 3 ar gyfer y datblygiad bydd y tai eu hunain wedi eu hadeiladu i gyfarfod a gofynion tebyg. Credir, felly, fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi C7 o GDUG.

**Hanes cynllunio perthnasol**

5.9 Fel y cyfeirir ato uchod mae hanes o ganiatadau datblygiadau preswyl yn mynd yn ôl i 2007 ar y safle hwn. Mae'r cais blaenorol C08A/0568/24/LL a ganiatawyd yn 2009 yn rhedeg allan mis Awst (2014) ond mae cais C09A/0532/24/LL i newid lleoliad a dyluniad rhai o'r tai dal i fod yn ddilys tan 2015. I'r perwyl hyn mae'r egwyddor o ddatblygu'r safle ar gyfer datblygiad preswyl yn dderbyniol ar sail polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol. Mae'r ymgeisydd yn dewis bwrw ymlaen gyda chaos C08A/0568/24/LL ac felly wedi gwneud cais i adnewyddu'r cais hwnnw.

**Materion isadeiledd**

5.10 Mae datblygu'r safle wedi ei gyfyngu rhywfaint oherwydd presenoldeb gorsaf trin carthion a gorsaf lleihau gwasgedd cyflwyniad nwy sy'n golygu ni all unrhyw ran o'r datblygiad ddod o fewn pellter penodedig i'r ddwy orsaf. Ar wahân i'r cyfyngiadau hyn mae'r isadeiledd ar sail gofynion Dwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn dderbyniol yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau priodol ar unrhyw ganiatâd cynllunio. Credir, felly, fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi CH18 o GDUG.

**Materion Ieithyddol a Chymunedol**

5.11 Mae Polisi A2 o GDUG yn datgan gwrthodir cynigion a fyddai oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau. Dywed CCA: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ynghyd a NCT 20 (Hydref, 2013) a'r Canllaw Ymarferol (Mehefin, 2014) cysylltiedig bod angen edrych yn ofalus ar sut y bydd datblygiadau newydd yn effeithio ar y patrwm presennol o wead cymdeithas a nodweddion lleol a'i bod hi'n ofynnol i ddatblygiadau cydymffurfio c amcanion ar gyfer yr iaith Gymraeg ynghyd ac amcanion cynaliadwyedd a pholisïau ieithyddol lleol a chenedlaethol.

5. 12 Er bod y safle wedi ei ddynodi mae Datganiad Ieithyddol a Chymunedol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r bwriad ac mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi darparu ymateb i gynnwys y datganiad sy'n nodi:-

(i) Ni chredir fod graddfa'r datblygiad arfaethedig yn debygol o achosi tyfiant sylweddol yn y boblogaeth a all effeithio'n andwyol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal hon.

(ii) Mae'r bwriad o ddarparu cyfran o dai fforddiadwy yn fuddiol o ran cadw'r boblogaeth bresennol yn eu cymunedau ac annog pobl Gymraeg i ddychwelyd i'r ardal. Bydd rhaid sicrhau bod y canran o dai fforddiadwy yn ddeniadol i unigolion lleol sydd angen am dai fforddiadwy.

(iii) Mae'r cymysgedd o dai a gynigir yn gwneud y datblygiad yn ddeniadol i'r boblogaeth leol yn enwedig i deuluoedd gyda phlant.

(vi) Nid yw ail-gartrefu'n broblem arwyddocaol yn yr ardal ac mae hyn yn fanteisiol i hyfywdra'r iaith Gymraeg.

**Budd cymunedol / materion cytundeb 106**

5.13 Fel y cyfeirir ato'n flaenorol fe ystyrir yr elfen o'r bwriad sy'n ymwneud a thai fforddiadwy yn dderbyniol o safbwynt nifer a math. O ganlyniad bydd gofyn sicrhau fod 6 o'r 24 tŷ yn dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol a bydd modd gwneud hyn drwy gwblhau cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 cyn rhyddhau unrhyw ganiatâd. Credir, felly, fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion Polisiau CH1 a CH6 o GDUG.

5.14 Yn ychwanegol i ddarparu tai fforddiadwy mae'r cynllun hefyd yn cynnwys llecyn agored adloniadol er mwyn diwallu anghenion deiliaid bwriedig y datblygiad. Mae'r pwysigrwydd o ddarparu llecyn agored o werth adloniadol fel rhan o'r datblygiad hwn eisoes wedi ei bwysleisio ar ddechrau'r adroddiad yma yn enwedig pan fod diffyg llecyn adloniadol o fewn y pentref yn bresennol a fuasai'n diwallu anghenion y datblygiad ei hun. Gan ystyried bod y cais cyfredol hwn yn cynnwys llecyn agored adloniadol credir bod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion CCA: Datblygiadau Tai a

Llecynnau Agored o Werth Adloniadol ynghyd a chydymffurfio a gofynion Polisi CH1 a CH43 o GDUG.

5.15 Fel y cyfeiriwyd ato eisoes mae'r ddogfen Canllaw Cynllunio Cymru: Datblygiadau Tai a Darpariaeth Addysgol (Tachwedd, 2009) yn berthnasol yma. Yn y cyfnod pryd cyflwynwyd y cais hwn yn ôl yn Mai, 2014 amcangyfrifwyd na fyddai ddigon o gapasiti o fewn ysgol y dalgylch, sef, Ysgol Felinwnda yn y flwyddyn academaidd 2013-2014 ar gyfer cynnydd ychwanegol dros 30 o ddisgyblion. I'r perwyl hyn, ac yn seiliedig ar ofynion y CCA uchod, roedd gofyn i'r ymgeisydd sicrhau cyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth addysgol yn ysgol y dalgylch.

5.16 Fel y cyfeirwyd ato uchod mae'r cyfraniad addysgol o £36,771.00 yn parhau i fod yn ddilys gan fod y CCA: Datblygiadau Tai a Darpariaeth Addysgol yn datgan '*bydd asesiad o effaith datblygiad preswyl ar ysgolion lleol yn cael ei seilio ar y wybodaeth gyfredol (h.y. capasiti y sefydliadau addysgol ynghyd a nifer y disgyblion sydd yn eu mynychu) sydd yn cyfleu'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn academaidd pryd y cyflwynir y cais cynllunio'* ac mai dyma oedd y capasiti a'r gofynion ariannol bryd hynny. Credir, felly, os y derbynnir y cyfraniad addysgol bod y bwriad yn dderbyniol ar sail cydymffurfio a gofynion Polisi CH37 o GDUG ynghyd a gofynion CCA: Datblygiadau Tai a Darpariaeth Addysgol.

## 6. Casgliadau:

6.1 Gan gymryd i ystyriaeth yr asesiad uchod credir fod y bwriad o adnewyddu'r cais blaenorol ar gyfer 24 ty (yn cynnwys 6 ty fforddiadwy) ynghyd a gwaith cysylltiedig ar y safle hwn yn dderbyniol, o safbwynt egwyddor, effaith yr iaith Gymraeg, lleoliad, dwysedd, graddfa, mwynderau gweledol/preswyl, diogelwch ffyrdd a materion isadeiledd ac felly yn unol â'r polisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd arwyddo cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 yn ymwneud â sicrhau bod 6 o'r 24 tŷ yn dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol ac amodau perthnasol yn ymwneud â:-

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau.
3. Llechi naturiol/deunyddiau allanol.
4. Amodau priffyrdd.
5. Cyfoeth naturiol Cymru.
6. Dwr Cymru.
7. Tirweddu.
8. Tynnu hawliau a ganiateir ar y tai fforddiadwy.
9. Manylion ffensys/waliau.
10. Datblygiad i'w gwblhau mewn camau.